



Ysgol Gymraeg Gymraeg Bryniago



'Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.'

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisiau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

The United Nations Convention on the Rights of the Child (CRC) is at the heart of our school's planning, policies, practice and ethos. As a rights-respecting school we not only teach about children's rights but also model rights and respect in all relationships.



Polisi Gwisg Ysgol

Dyddiad adolygu a mabwysiadu:

Date reviewed and adopted: **06.10.2026**

Dyddiad yr adolygiad nesaf: **Hydref 2027**

Date of next review: **Autumn 2027**

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Signature of chair of governors:



Polisi Gwisg Ysgol Ysgol Gymraeg Bryniago

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol ac fe ofynnir yn garedig i bob plentyn ei gwisgo. Mae ar gael yn Picton Sports yn Llanelli neu ar eu gwefan:

<http://www.pictonsports.co.uk/?estore&cat=Schools/Colleges|Primary Schools|Bryniago>

- Crys chwys/ cardigan llwyd Crys polo coch ar gael yn siopau ledled y wlad
- Sgert neu drowsus llwyd ar gael yn siopau ledled y wlad
- Sanau gwyn, llwyd neu ddu ar gael yn siopau ledled y wlad
- Esgidiau synhwyrol ar gael yn siopau ledled y wlad

Gwisg haf

- Ffrogiau cotwm gwyn a choch streipiog neu batrwm sgwariau ar gael yn siopau ledled y wlad, esgidiau synhwyrol (h.y. dim sandalau agored na fflip fflops – am resymau iechyd a diogelwch)
- Cardigan/ siwmpwr llwyd
- Trowsus byr, llwyd neu siorts ysgafn ar gael yn siopau ledled y wlad

Cotiau

- Mae croeso i blant i wisgo cot synhwyrol i'r ysgol. Awgrymwn i blant i wisgo cot ysgafn os yw'r tywydd yn fwynedd ond yn lawiog. Awgrymwn i blant i wisgo cot dwym os yw'r tywydd yn oerach.

Addysg Gorfforol

Trowsus byr a chrys T lliw tîm (coch/ melyn/ glas/ gwyrdd) ar gyfer gweithgareddau dan do, tracwisg ar gyfer yr awyr agore. Bydd angen gwisg nofio ar ddisgyblion Blynnyddoedd 3 a 4.

Dylai esgidiau Addysg Gorfforol fod yn addas, e.e. esgidiau rhedeg, at ddibenion iechyd a diogelwch. Caniateir i unrhyw blentyn nad yw'n gwisgo'r esgidiau cywir gymryd rhan yn y wers Addysg Gorfforol mewn ffordd arall, e.e. drwy weinyddu, cadw sgôr, ac ati.

Mae'r plant yn cerdded i'r bws/ o'r bws wedi eu gwersi nofio, felly os nad ydych am iddynt gerdded yn ôl gyda gwallt gwlyb, gofynnwn iddynt wisgo het nofio.

Dylid gosod enw'r plentyn yn eglur ar bob dilledyn gan gynnwys y 'treinys'.

Er lles iechyd a diogelwch eich plentyn, gofynnwn yn garedig iddynt glymu gwallt hir neu sgarffiau pen yn ystod gwers Addysg Gorfforol. Gofynnwn hefyd i blant beidio a

gwisgo gemwaith yn ystod gwers Addysg Gorfforol neu i orchuddio'r gemwaith gyda thâp.

Gwisgoedd i ymadawyr (pe dymunir)

Os yw rhieni am gynhyrchu unrhyw eitem ar gyfer disgyblion sy'n ymadael a'r ysgol (Blwyddyn 6) yna rhaid gofyn am ganiatad gyda'r pennaeth yn ysgrifenedig.

Gofynnir i rieni i ystyried cost creu gwisg arbennig ar gyfer ymadawyr ar deuluoedd. Dylai rhieni hefyd ystyried effaith amgylcheddol creu gwisg na ellir ei ail-ddefnyddio.

Mae'r ysgol yn fodlon ystyried y canlynol:

- Crys T lliw tîm yr ysgol (coch/ gwyrdd/ glas/ melyn)
- Crys polo coch
- Siwmpwr llwyd ysgol

Gall y disgyblion wisgo rhain fel rhan o'u gwisg ysgol yn ystod Tymor yr Hydref-Tymor yr Haf yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol (Blwyddyn 6)

NID YW'R YSGOL YN CANIATAU HWDIS YMADAEL

Gemwaith, gwallt a cholur

Am resymau lechyd a Diogelwch gofynnwn yn garedig i blant osgoi gwisgo gemwaith i'r ysgol os yn bosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, gofynnwn yn garedig i'r plant orchuddio'r gemwaith gyda thâp yn ystod gwers Addysg Gorfforol. Os oes gan eich plentyn emwaith yn yr ysgol, eu cyfrifoldeb nhw yw'r gemwaith ar bob adeg.

Gofynnwn yn garedig i blant i beidio a gwisgo colur i'r ysgol.

Dylir cadw'r gwallt yn daclus. Os yw'n bosibl, dylir cadw'r gwallt yn ôl o'u hwynebau a'u llygaid ac os yw'n hir dylir ei glymu yn ôl.

Materion Meddygol

Os oes gan blentyn fater feddygol sy'n dylanwadu ar y wisg ysgol yna gofynnwn yn garedig i rieni i drafod yr anghenion gyda'r ysgol. Bydd yr ysgol yn barod i weithio gyda'r rhieni er lles y plentyn.

Amodau tywydd effeithiol

Bydd yr ysgol yn hyblyg wrth ymdrin â gofynion gwisg ysgol sylfaenol yn ystod cyfnodau o dywydd poeth neu oer iawn